

**Drafft ymgynghorol**



# Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Dyfodol Tecach

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

CYNGOR BRO MORGANNWG 2020 – 2024

Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn fformatau eraill,  
er enghraifft: ffont mwy; ar bapur lliw gwahanol.

Gallwch ofyn i gael y ddogfen yn Gymraeg neu Saesneg.

# **Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol tecach**

## **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bro Morgannwg 2020 – 2024**

### **Cynnwys**

<b>Cynnwys</b>	<b>1</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</b>	<b>4</b>
<b>Cyd-destun</b>	<b>6</b>
<b>Cyngor Bro Morgannwg a'n Cyngor</b>	<b>6</b>
<b>Gweledigaeth a gwerthoedd</b>	<b>7</b>
<b>Datblygu'r Cynllun hwn</b>	<b>8</b>
<b>Amcanion Cydraddoldeb – cyflawniadau</b>	<b>16</b>
<b>Amcanion cydraddoldeb – yr hyn y byddwn yn ei wneud</b>	<b>27</b>

## Cyflwyniad

Gyda chryn balchder rwy'n cyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2020-2024 - **'Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol tecach'**.

Mae cynghorau'n chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cyrraedd pob aelod o'n cymdeithas, gan ystyried amrywiaeth o anghenion. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r agenda cydraddoldeb ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i wireddu ein gweledigaeth o ddyfodol tecach.

Dim ond drwy gydweithio, gwrandao a pharchu ein gilydd y gallwn lwyddo i ateb yr amryw heriau sy'n wynebu ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus heddiw. Er mwyn cyflawni'r cynllun hwn a diwallu anghenion amrywiol ein cymunedau, bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn bellgyrhaeddol. Mae'n cynnwys gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, ein partneriaid ym maes iechyd, yr Heddlu a'r gwasanaeth Tân, yn ogystal â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, Cynghorau Tref a Chymuned, ein cydweithwyr undeb llafur, a'n cymunedau.

Yn y Cynllun hwn, cyflwynwn ein hamcanion cydraddoldeb strategol yng nghyd-destun pedwar amcan lles newydd y Cyngor. Credwn fod y rhain yn ategu ei gilydd ac y byddant gyda'i gilydd yn cyflawni ein canlyniadau llesiant lleol a'r saith nod llesiant cenedlaethol:

<b>Amcanion Lles Drafft</b>	<b>Amcanion Cydraddoldeb Strategol Drafft</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Gweithio gyda a thros ein cymunedau</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gwella sut rydym yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â'r nodweddion gwarchoddedig am ein gwaith a'n penderfyniadau</li><li>• Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, nodi a oes bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn y Cyngor erbyn Mawrth 2021, ac adrodd yn ôl yn flynyddol ar y ddau.</li></ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y Cyngor ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl a phobl ifanc, er mwyn adlewyrchu'n agosach amrywiaeth y boblogaeth leol erbyn Mawrth 2024.</li> <li>• Parhau i weithio ar ddatblygu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol sy'n cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, drwy weithredu ystod o gamau gweithredu erbyn Mawrth 2024.</li> <li>• Rhoi cymorth a datblygiad i aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad i blant a phobl ifanc a darparu cymorth i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu a gweithredu prosesau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â throeddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.</li> <li>• Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion gwarchoddedig a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.</li> <li>• Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafndiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hygyrchedd, i grwpiau gwarchoddedig.</li> </ul>

Mae Bro Morgannwg yn ardal amrywiol sy'n cynnwys cymunedau gwahanol iawn sydd â dyheadau, anghenion a phryderon gwahanol. Mae ein Cynllun yn nodi sut bydd y Cyngor yn gweithio i fodloni'r anghenion hynny, mynd i'r afael â phryderon a helpu pobl o bob oedran i gyflawni eu dyheadau. P'un a ydych chi'n byw neu'n gweithio yn un o'n trefi neu yn un o'n cymunedau mwy gwledig, byddwn yn parhau i ymdrechu i wella bywyd ac i chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld yma.

Rydym yn awdurdod uchelgeisiol a blaengar. Rwyf yn hyderus y gall staff, aelodau etholedig, y gymuned a phawb sydd â budd yn y Fro barhau i 'weithio gyda'i gilydd i gael dyfodol tecach'. Fel hyn, gallwn sicrhau bod pob un ohonom yn cyflawni 'Cymunedau Cryf sydd â Dyfodol Disglair'.

**Y Cyngorydd Neil Moore**

**Rob Thomas**

**Arweinydd**

**Rheolwr Gyfarwyddwr**

## Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yw disgrifio'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y ddyletswydd gyffredinol) a'r dyletswyddau penodol i Gymru.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cynnwys wyth nodwedd warchoddedig:

Ailbennu Rhywedd	Cyfeiriadedd Rhywiol
Anabledd	Hil
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Oedran
Crefydd neu Gred	Rhyw

Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond er mwyn rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru cynghorau fel awdurdodau cyhoeddus sydd â dyletswyddau penodol. Mae hyn yn golygu pan fyddwn yn cyflawni ein swyddogaeth gyhoeddus, rhaid i ni roi sylw dyledus i'r canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall y mae'r Ddeddf yn ei wahardd
- hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl sy'n rhannu Nodwedd Warchoddedig berthnasol a phobl heb un o'r nodweddion hynny
- meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.

Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig

- rhoi camau ar waith i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fo'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl sydd â Nodweddion a Ddiogelir i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill pan fo'r gyfran ohonyn nhw sy'n cymryd rhan yn gymharol isel.

Mae'r dyletswyddau penodol yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eu cymryd i ddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol. Maent yn cwmpasu:

Amcanion	Hyfforddi staff
Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol	Caffael
Ymgysylltu	Adroddiadau blynyddol
Asesu effaith	Publishing
Gwybodaeth am gydraddoldeb	Adrodd gan Weinidogion Cymru
Gwybodaeth am gyflogaeth	Adolygu
Gwahaniaethau cyflog	Hygyrchedd

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn egluro pa gamau rydym yn eu cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

Er mwyn nodi'r blaenoriaethau, rydym wedi defnyddio ymchwil o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac adborth gan drigolion a sefydliadau sy'n gweithio ym Mro Morgannwg. Rydym hefyd wedi ystyried amcanion cydraddoldeb strategol drafft Llywodraeth Cymru. Rydym yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i wella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau ac yn cyflogi pobl.

## Cyd-destun

Mae'r byd yn prysur newid ac mae'r cyd-destun i'r Cynllun hwn yn sylweddol wahanol i ble'r oeddem yn 2016. Yr hyn sy'n gyson yw'r angen i'r Cyngor ymgysylltu â'r gymuned a chynllunio at y dyfodol, i weithio gyda'n partneriaid a chrosawu newid. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd ystyried sut y bydd yr hyn a wnawn a'n penderfyniadau'n effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae cyfleoedd a phrofiadau'n amrywio ar draws yr ardal gyda phobl yn byw mewn rhai ardaloedd dan anfantais yn yn ddifreintiedig. Yn ogystal â hyn mae ein poblogaeth yn heneiddio ac mae angen i ni sicrhau y gall gwasanaethau fodloni anghenion newidiol y boblogaeth wrth iddi heneiddio. Mae angen i ni feddwl yn glir am ba wasanaethau a roddwn a sut rydym yn eu rhoi i bobl. Rhaid i ni ystyried anghenion amrywiol y boblogaeth p'un a yw hynny oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig, eu hamgylchiadau ariannol, neu un o'r nifer o resymau eraill a all effeithio ar yr hyn y mae gwasanaethau a chefnogaeth ei angen ar bobl.

## Cyngor Bro Morgannwg a'n Cyngor

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod pawb ym Mro Morgannwg yn cael mynediad teg a chyfartal at y gwasanaethau yma. Rydym hefyd am iddynt gael triniaeth deg a chyson yn eu hymwneud a'u cyflogaeth gyda ni.

Rhaid i'r egwyddorion a ddisgrifir yn y ddyletswydd gyffredinol fod yn sail i'r ystod eang o wasanaethau a ddarparwn. Mae'r rhain yn cynnwys tai, addysg, gofal cymdeithasol, a llyfrgelloedd yn ogystal â gofalu am ein harfordir, ein parciau a'n gerddi.

Ysgrifennwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020–2024 i gysylltu â'r Cynllun Corfforaethol 2020-2025 a ddiwygiwyd yn ddiweddar.

Mae'r cynllun corfforaethol yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Bro Morgannwg, ein gwerthoedd a'n prif flaenoriaethau. Bydd blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn helpu i wneud cymunedau ym Mro Morgannwg yn fwy cyfartal. Bydd yr amcanion cydraddoldeb yn y



Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn cefnogi'r gwaith hwn a dyna pam y mae amcanion y ddau gynllun wedi'u halinio.

## Gweledigaeth a gwerthoedd

Gweledigaeth ein cyngor yw '**Cymunedau cryf â dyfodol disglair**'.

Mae gennym gyfres o werthoedd corfforaethol sy'n sail i'n gwaith: uchelgeisiol; agored; gyda'n gilydd ac yn falch. Dyma'r hyn y maent yn ei olygu wrth feddwl am gydraddoldeb a chydweithio i greu dyfodol tecach.

**Uchelgeisiol** Meddwl at y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol.

O ran cydraddoldeb, mae hyn yn golygu cefnogi pobl i gyflawni eu potensial, a chael bywyd da iddynt hwy eu hunain beth bynnag fo'u cefndir neu eu nodweddion gwarchoddedig.

**Agored** Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau yr ydyn ni'n eu gwneud.

O ran cydraddoldeb, mae hyn yn golygu siarad â phobl a sefydliadau a all ein helpu i ddeall y problemau a'r rhwystrau i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Gallwn wedyn gymryd y rhain i ystyriaeth wrth i ni wneud ein penderfyniadau.

**Gyda'n Gilydd** Gweithio fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a phartneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon.

O ran cydraddoldeb, mae hyn yn golygu gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol ein trigolion a'n cymunedau.

**Yn Falch** Balch o Fro Morgannwg: balch i wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.

O ran cydraddoldeb, mae hyn yn golygu bod pawb yn teimlo eu bod yn byw mewn cymuned lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, yn gallu bod yn falch o bwy ydynt a'r rhan y maent yn ei chwarae i wneud Bro Morgannwg yn lle da i fyw.

Mae ein gwerthoedd yn gyson â'r pum ffordd o weithio sy'n ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent yn rhai tymor hir, maent yn gweithio gyda'i gilydd, ac yn cynnwys gweithio gydag eraill. Bydd ein gwerthoedd yn cefnogi mwy o ffocws ar atal wrth i ni weithio i wireddu ein gweledigaeth.

Mae ein blaenoriaethau cydraddoldeb yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn benodol, bydd yn ein helpu i gyfrannu at nodau llesiant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys creu Cymru fwy cyfartal.

## **Datblygu'r Cynllun hwn**

Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i gynhyrchu'r cynllun hwn a'r amcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adroddiadau ymchwil cenedlaethol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach 2018' (sy'n ddiweddariad ar ymchwil flaenorol 'A yw Cymru'n Decach 2015' a 'Pa mor deg yw Cymru 2011');
- gwybodaeth o ddogfennau'r Cyngor megis y Cynllun Corfforaethol;
- gwybodaeth a data lleol;
- ymgynghori;
- adborth oddi wrth bobl sy'n cynrychioli un neu fwy o'r grwpiau gwarchoddedig drwy ymgysylltu ac ymgynghori rhwng Mai 2019 ac Ionawr 2020;
- amcanion cydraddoldeb drafft Llywodraeth Cymru;
- gwybodaeth o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â thystiolaeth genedlaethol o waith ymchwil, wedi llunio'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i gyflawni amcanion cydraddoldeb y Cyngor rhwng 2020 a 2024.

Mae'r wybodaeth ganlynol am y boblogaeth leol yn darparu peth o'r cyd-destun ar gyfer yr hyn sydd angen ei gyflawni. Daw'r data hwn o ystod o ffynonellau allanol gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Data Cymru a StatsCymru.

Y data mwyaf cadarn sydd ar gael ar gyfer Bro Morgannwg yw data o Gyfrifiad 2011. Mae data mwy diweddar ar gael ar gyfer Bro Morgannwg o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2019. Mae data ar gael ar gyfer nifer o nodweddion gwarchoddedig ar lefel ranbarthol o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol, a chyflwynir y data hwn ar gyfer 2015-2017. Cynhyrchir y Cyfrifiad a'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Data Cydraddoldeb

### Ethnigrwydd

Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 fod 126,336 o bobl yn byw ym Mro Morgannwg. O'r rhain, roedd y mwyafrif, 121,838 (96%) yn adnabod eu hunain fel Gwyn, 1,695 (1.3%) yn adnabod eu hunain fel o grŵp ethnig cymysg neu luosog, 1,967 (1.5%) yn adnabod eu hunain fel yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, 489 (0.3%) yn adnabod eu hunain fel Du, Affricanaidd, Caribiaidd, neu Ddu Prydeinig a 347 (0.2%) o grwpiau ethnig eraill.

Mae data ar gael ar gyfer Bro Morgannwg o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2019. Amcangyfrifir bod 4,200 (3.3%) o drigolion Bro Morgannwg yn bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

### Cenedligrwydd

Mae ymatebwyr yn gallu dewis sawl ateb mewn ymateb i gwestiwn cenedligrwydd yn y Cyfrifiad. Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 fod mwyafrif o drigolion Bro Morgannwg yn nodi eu bod yn Saeson, yn Gymry, yn Albanaidd, o Ogledd Iwerddon neu'n Brydeinwyr. Nododd 2.4% eu cenedligrwydd fel arall yn unig.

Mae data ar gael ar gyfer Bro Morgannwg o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2019. Amcangyfrifir bod 77,400 (61%) wedi nodi eu hunain fel Cymreig a 49,500 (39%) fel cenedligrwydd arall.

### **Prif iaith**

Yn ôl Cyfrifiad 2011, 52,443 (98%) o aelwydydd sydd â Chymraeg neu Saesneg fel prif iaith, ac mae gan 393 (0.7%) o gartrefi neb yn yr aelwyd â'r Gymraeg neu'r Saesneg yn brif iaith iddynt.

Mae data ar gael ar gyfer Bro Morgannwg o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2019. Amcangyfrifir bod 21% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

### **Anabledd**

Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 fod 13,091 (10%) o weithgareddau o ddydd i ddydd y trigolion Bro Morgannwg wedi'u cyfyngu ychydig. Roedd 12,538 (10%) o weithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u nodi fel yn cael eu cyfyngu'n fawr.

Mae data ar gael ar lefel ranbarthol ar gyfer Cymru ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Ar gyfer De-ddwyrain Cymru rhwng 2015 a 2017, amcangyfrifwyd bod 206,700 (22%) o bobl yn anabl.

### **Oedran**

Amcangyfrifodd yr amcangyfrifon canol blwyddyn 2018 o'r boblogaeth yn seiliedig ar gyfrifiad 2011 fod poblogaeth Bro Morgannwg yn 132,165. Amcangyfrifir bod y mwyafrif o'r boblogaeth, 80,023 (61%), yn 16-64 oed, 27,691 (21%) oedd yn 65 oed a throsodd, a 24,451 (18%) yn 0-15 oed.

### **Rhyw**

Amcangyfrifodd yr amcangyfrifon canol blwyddyn 2018 o'r boblogaeth yn seiliedig ar gyfrifiad 2011 fod 68,043 (51%) o'r boblogaeth yn fenywaidd a 64,122 (49%) yn wrywaidd.

## **Ailbennu Rhywedd**

Nid oes data dibynadwy ar gael ar hunaniaeth rhyw. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn yn nodi cynigion Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer cynnal a chynnwys Cyfrifiad 2021. Mae'r cynigion yn cynnwys argymhelliad i gynnwys cwestiwn hunaniaeth rhywiol gwirfoddol i'w ofyn i bobl 16 oed a throsodd.

## **Cyfeiriadedd Rhywiol**

Nid oes unrhyw ddata ar gyfeiriadedd rhywiol ar gael ar gyfer ardal Bro Morgannwg. Mae data ar gael ar lefel ranbarthol ar gyfer Cymru ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Ar gyfer De-ddwyrain Cymru rhwng 2015 a 2017, amcangyfrifir bod 1,155,500 (95.8%) o bobl 16 oed a throsodd yn heterorywiol neu'n syth, 18,200 (1.5%) yn hoyw neu lesbiaidd, 9,500 (0.8) yn ddeurywiol, ac fe wnaeth 23,500 (1.9%) peidio ag ymateb.

## **Crefydd neu Gred**

Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 fod 92,225 (73%) o'r boblogaeth yn nodi eu hunain yn Gristnogol, 41,564 (32.9%) yn datgan nad oedd ganddynt grefydd, bu 9,348 (7.4%) heb ddatgan crefydd, ac roedd crefyddau eraill yn cynrychioli llai nag 1% yr un.

Mae data ar gael ar lefel ranbarthol ar gyfer Cymru ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rhwng 2015 i 2017, ar gyfer De-ddwyrain Cymru amcangyfrifir bod y mwyafrif, 726,300 (48%) yn Gristnogion, 689,000 (46%) heb grefydd, 34,000 (2.2%) yn Fwslim, 41,300 (2.7%) o grefyddau arall ac ni wnaeth 3,200 (0.2%) ymateb.

## **Statws Priodasol**

Nid oes unrhyw ddata ar statws priodasol ar gael ar gyfer Bro Morgannwg yn unig. Mae data ar gael ar lefel ranbarthol ar gyfer Cymru ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rhwng 2015 i 2017, ar gyfer De-ddwyrain Cymru Amcangyfrifir bod y mwyafrif, 574,700 (47%) yn briod neu

mewn partneriaeth sifil, 433,300 (36%) yn sengl, 125,300 (10%) wedi ysgaru, gwahanu neu â phartneriaeth sifil wedi'i ddiddymu, ac 81,400 (7%) yn weddw neu'n bartneriaeth sifil oedd yn goroesi.

### **Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Ychydig o ddata sydd ar gael ar feichiogrwydd a mamolaeth. Yn 2015, y data mwyaf diweddar a oedd ar gael, roedd 1,333 o enedigaethau byw ym Mro Morgannwg. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer Cymru a Lloegr roedd cyfraddau beichiogi ar gyfer menywod o bob oed yn 2017 yn 76.1 fesul 1000.

### **Economaidd-Gymdeithasol**

- Amcangyfrifir bod 13% o bobl yn byw mewn amddifadedd incwm, sy'n is na chyfartaledd Cymru.
- Gellir gweld gwahaniaethau gwirioneddol rhwng ardaloedd. Amcangyfrifir mewn rhai ardaloedd mwy difreintiedig bod 38% o bobl mewn amddifadedd incwm.
- Yn rhai o'r ardaloedd mwy difreintiedig amcangyfrifir bod 53% o blant yn byw mewn tloidi.
- Mae 80.4% o'r boblogaeth oedran gwaith mewn gwaith, gyda 3.4% yn ddi-waith.
- Mae canran y bobl a gyflogir yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 73.1%.

## **Gweithio i gefnogi cydraddoldeb**

### **Ein Cyngor**

Mae'r wybodaeth isod yn darparu rhai ffeithiau allweddol am y Cyngor, ei adnoddau a sut mae'r sefydliad yn gweithio i gefnogi cydraddoldeb.

- I gefnogi'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig mae'r Cyngor yn dibynnu ar weithlu medrus sy'n cynnwys athrawon, peirianwyr a gweithwyr cymdeithasol.
- Mae'r Cyngor yn cyflogi dros 5,000 o staff, gan gynnwys y rhai a gyflogir mewn ysgolion.

- Yn Arolwg Staff 2018, dywedodd 74% o ymatebwyr eu bod yn falch i weithio i'r Cyngor, a dywedodd 70% y byddent yn argymhell y Cyngor fel lle i weithio.
- Mae 57 ysgol ym Mro Morgannwg, gan gynnwys 7 ysgol Gymraeg.
- Mae gan y Cyngor 3,829 o gartrefi.
- Mae 47 o gynghorwyr etholedig gan gynnwys y Cabinet, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor a chwe Chynghorydd arall.

Mae'n amlwg y bydd y sector cyhoeddus yn mynd drwy gyfnod o newid enfawr dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y ffordd rydym yn gweithio, yr hyn a ddisgwylir gennym a hynny o adnoddau sydd ar gael i ni oll yn newid yn fawr.

Ein dyletswydd yw sicrhau ein bod yn dal i roi gwasanaethau i'r aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymuned, y caiff pobl ifanc y dechrau gorau mewn bywyd a bod y Fro'n lle diogel, glân ac yn ardal y mae pobl dal am fyw, gweithio ac ymweld â hi.

Mae'r amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn rhoi fframwaith i'n gweithgareddau dros y pedair blynedd nesaf, gan weithio gydag a thros ein cymunedau lleol i fodloni eu hanghenion a'u dyheadau amrywiol.

## **Hyfforddiant**

Rydym yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb fel bod staff yn gwybod sut i ddarparu gwasanaeth teg sy'n diwallu anghenion yr ystod amrywiol o bobl sy'n ei ddefnyddio. Mae'r hyfforddiant corfforaethol a ddarperir yn cynnwys:

- Ymwybyddiaeth Gydraddoldeb
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth Pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol
- Ymwybyddiaeth Drawsrywedd

- Ymwybyddiaeth Hil
- Ymwybyddiaeth Iaith Arwyddion Prydain

Yn ogystal â'r rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb, ymdrinnir â materion cydraddoldeb mewn hyfforddiant corfforaethol arall, megis hyfforddiant recriwtio. Cedwir golwg ar y rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb i gwmpasu ystod o nodweddion gwarchoddedig.

### **Asesu Effaith**

Mae proses ar waith i asesu effaith debygol ar grwpiau gwarchoddedig o unrhyw bolisiau neu arferion sy'n cael eu cynnig neu eu hadolygu. Mae'r broses yn helpu'r Cyngor i ystyried effaith ein gwaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig.

Anogir staff i gasglu a dadansoddi data i weld sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor. Rydym yn ceisio gwella ar hyn bob blwyddyn drwy gynyddu nifer y gwasanaethau sy'n casglu data ac annog gwell dadansoddiad o ddata. Gall staff ddefnyddio'r wybodaeth hon fel rhan o'u sail dystiolaeth mewn asesiadau o effaith ar gydraddoldeb.

Defnyddir y broses hon, er enghraifft, i asesu effaith debygol polisiau ac arferion gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r gyllideb flynyddol. Rydym yn ystyried a oes risg bod ein penderfyniadau yn debygol o gael effaith sylweddol ar grwpiau gwarchoddedig. Os gallwn weld y gallai fod un, byddwn yn cynnal asesiad llawn o'r effaith.

Lle ceir effaith sylweddol, cyhoeddir manylion ar wefan y Cyngor.

### **Enghreifftiau o Arferion Da**

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol bobl. Rydym yn cyflawni ystod eang o waith sy'n cyfrannu at hyn.

Dyma rai esiamplau o'n gwaith.



- Mae gennym raglenni gwaith blynyddol gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion hil ymhlith plant mewn ysgolion a gweithdai.
- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleoedd am swyddi.
- Rydym yn cynnal digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocaust blynyddol.
- Rydym yn gweithio tuag at lefelau uwch o safonau anabledd Inspport. Rydym wedi ennill y Safon Efydd. Rydym bellach yn gweithio tuag at y Safon Arian.
- Mae gennym fforwm Sipsiwn a Theithwyr sy'n gallu ymateb yn gyflym i asesu anghenion lles Sipsiwn a Theithwyr pan fyddant yn cyrraedd Bro Morgannwg.
- Rydym yn cefnogi Fforwm 50+ y Fro. Mae hwn yn grŵp ymgysylltu â'r cyhoedd gweithgar iawn sy'n cynnig llais i bobl dros 50 oed.
- Mae tref fwyaf Bro Morgannwg, y Barri, wedi derbyn statws 'Tref Dementia Cyfeillgar' gan Alzheimer's Society Cymru. Mae gennym grŵp llywio gweithredol i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein cynllun gweithredu. Mae gennym nifer sylweddol o Gyfeillion Dementia hyfforddedig.
- Mae gennym weithgor cynhwysiant digidol sy'n datblygu strategaeth i gael mwy o bobl ar lein. Mae ein staff llyfrgell yn hyrwyddwyr digidol sy'n gallu helpu'r cyhoedd gyda'u hymholiadau. Gall y cyhoedd gael gafael ar ystafelloedd cyfrifiaduron mewn llyfrgelloedd. Mae'r Tîm Dysgu Oedolion yn y gymuned a'r llyfrgelloedd yn cynnig amrywiaeth o raglenni hyfforddi ar gynhwysiant digidol. Rydym wedi gwella mynediad wi-fi i gartrefi gwarchod ac yn cynllunio ar gyfer gwneud hyn mewn cartrefi gofal.
- Rydym yn darparu trafndiaeth gymunedol Greenlinks mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae hyn yn cynnwys bysiau y gellir eu defnyddio'n hawdd gan bobl anabl. Mae Greenlinks

yn helpu pobl sydd heb drafnidiaeth i gael mynediad at wasanaethau ac i ryngweithio'n gymdeithasol.

- Rydym yn darparu bws i Dinas Powys Voluntary Concern, sef gwasanaeth cymorth cymunedol ar lawr gwlad. Mae hyn yn helpu i gludo pobl i ganolfan feddygol newydd nad yw ar gael yn hawdd.
- Mae gennym TREV (sef The Reassurance and Engagement Vehicle) sy'n ein helpu i fynd â gwybodaeth am ddiogelwch allan i'r gymuned.
- Mae gennym gynllun prynu gŵyliau blynyddol ar waith ac rydym yn treialu newidiadau i'n system amser hyblyg er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i staff reoli eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith hwn. Gellir dod o hyd i fwy o enghreifftiau yn yr [Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol](#) sy'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

## Amcanion Cydraddoldeb – cyflawniadau

Rhwng 2016 a 2020, gwnaed cynnydd da yn erbyn pob un o'r wyth amcan cydraddoldeb. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r hyn a wnaed ar gyfer pob un. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r gweithgaredd hwn wedi helpu i nodi a llywio'r amcanion cydraddoldeb strategol am y pedair blynedd nesaf.

### **Amcan Cydraddoldeb 1:**

#### **Casglu a dadansoddi data gwasanaeth fesul nodwedd warchoddedig er mwyn i wasanaethau fodloni anghenion amrywiol y cyhoedd**

Rydyn ni wedi cynyddu nifer y gwasanaethau sy'n casglu a dadansoddi data yn ôl nodwedd warchoddedig. Mae gwasanaethau yn edrych ar y wybodaeth hon i weld sut allan nhw wella

gwasanaethau i bobl mewn grwpiau gwarchoddedig. Mae gwasanaethau hefyd yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon wrth feddwl am yr effaith ar gydraddoldeb wrth wneud newidiadau i'w gwasanaethau.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn yn yr Adroddiadau Monitro Cydraddoldeb Blynyddol ar wefan y Cyngor.

## **Amcan Cydraddoldeb 2:**

### **Cau bylchau cyrhaeddiad plant mewn grwpiau gwarchoddedig**

Rydym wedi canolbwyntio ar gyrhaeddiad y grwpiau canlynol: Disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr; plant sy'n derbyn gofal gan ein hawdurdod lleol; plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Yn gyffredinol, mae canlyniadau perfformiad wedi bod yn dda ac yn cymharu'n dda â chyfoedion ledled Cymru. Mae bwlch yn dal i fodoli ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae lleihau hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

### **Gwaharddiadau Ysgol**

Mae canran y disgyblion sy'n agored i niwed a waharddwyd o ysgolion prif ffrwd y Fro wedi parhau'n gyson dros y 2 flynedd ddiwethaf. Yn 2017/18, roedd gostyngiad bach mewn gwaharddiadau o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a chynnydd bach mewn gwahardd disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol. Cafodd mwy o fechgyn na merched eu gwahardd yn ystod 2017/18. Mae bechgyn tua 4 gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd na merched.

Mewn ysgolion uwchradd, gostyngodd canran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a waharddwyd gan fwy na 10% rhwng 2016/17 a 2017/18. Arhosodd cyfraddau grwpiau eraill yn debyg dros yr un cyfnod.

Mewn ysgolion cynradd, bu cynnydd o bron 10% yng nghanran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a waharddwyd rhwng 2016/17 a 2017/18. Roedd cyfran y disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol a waharddwyd wedi dyblu bron yn ystod yr un cyfnod.

Ochr yn ochr ag ysgolion y Cyngor, mae'r Tîm Gwella Ymddygiad, y Gwasanaeth Ieuenctid, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, a'r Tîm Allgymorth Anhwylder Sbectrwm Awtistig o Ysgol y Deri oll yn gweithio i gefnogi disgyblion a allai fod mewn perygl o gael eu gwahardd.

### **Amcan Cydraddoldeb 3:**

#### **Gwneud dogfennau cyhoeddus yn haws i bobl eu darllen a'u deall**

Mae'r Cyngor yn codi ymwybyddiaeth o ganllawiau iaith glir. Mae canllaw iaith a steil clir ar gael i staff gyfeirio ato ar fewnrwyd y Cyngor. Ceir hefyd arweiniad i ramadeg, geiriadur iaith glir, a chanllaw i atalnodi.

Mae modiwl e-ddysgu yn ymdrin â hanfodion iaith glir. Mae'n rhoi gwybodaeth am gynllunio ymlaen llaw, sut i osgoi iaith gymhleth, bod yn glir ac yn dangos enghreifftiau.

Rydym yn datblygu fframwaith cymhwysedd craidd. Mae gennym gymhwysedd cyfathrebu a fydd yn cynnwys defnyddio iaith glir. Bydd asesu yn erbyn y cymhwysedd hwn yn digwydd yn ystod y broses arfarnu. Bydd cymorth ar gael ar gyfer dysgu pellach lle bo angen.

### **Amcan Cydraddoldeb 4:**

#### **Helpu staff i wybod mwy am gyfraith cydraddoldeb, a staff a'r cyhoedd i ddeall anghenion grwpiau gwarchoddedig**

Parheir i gynnig hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar asesu effaith ar gydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau penodol fel y gymuned fyddar. Mae modiwlau hyfforddiant e-ddysgu ar gael hefyd. Mae'r rhain yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o effaith ar gydraddoldeb, asesiadau effaith cydraddoldeb, ac ymwybyddiaeth o fod yn drawsryweddol.

Mae codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau a gweithio gyda sefydliadau eraill yn parhau ac mae wedi cynnwys materion fel iechyd meddwl, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd ac anabledd.

## **Amcan Cydraddoldeb 5:**

### **Ceisio barn grwpiau gwarchodedig ar newidiadau arfaethedig i bolisi, cyllidebau a gwasanaethau**

Mae gennym broses asesu effaith ar gydraddoldeb ar waith. Cafodd hyn ei adolygu a'i ail-lansio, gyda dolenni i ganllawiau, esiamplau, ac ymchwil i helpu swyddogion i gynnal asesiadau effeithiol.

Mae Tîm Cyfathrebu'r Cyngor yn cynnig cyngor ar ymgysylltu â gwasanaethau. Mae'r Tîm Cyfathrebu yn cadw rhestr o sefydliadau y gallwn siarad â hwy am anghenion grwpiau gwarchodedig i helpu gyda'r broses hon. Mae hyn yn helpu gwasanaethau i ddod o hyd i safbwyntiau ac anghenion grwpiau gwarchodedig fel bod y rhain yn llunio polisïau, penderfyniadau a gwasanaethau.

Gellir gweld enghreifftiau o asesiadau effaith ar gydraddoldeb ar ein gwefan. Gallwch ddarllen am y modd y mae'r broses ymgysylltu'n gweithio yn yr adroddiad Cyfathrebu yn ein Hadroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol ar ein gwefan.

## **Amcan Cydraddoldeb 6:**

### **Annog pobl â nodweddion gwarchodedig i adrodd am droseddau casineb, aflonyddwch a gwahaniaethu**

#### **Cydlyniant Cymunedol**

Mae'r Cyngor yn cydlynu Grŵp Cydlyniant Cymunedol gydag Aelodau yn dod o'r gymuned a chynrychiolwyr o'r Tîm Diogelwch Cymunedol, Heddlu De Cymru, a Gwirfoddolwyr Ieuenctid yr Heddlu. Mae'n cyfarfod bob chwarter i fonitro ac ymateb i densiynau yn y Fro fel rhan o bartneriaeth aml-asiantaeth.

Mae'r Grŵp Cydlyniant Cymunedol wedi rhoi cynllun datblygu ar waith ac mae'n defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar-lein a chymdeithasol i gael gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned. Mae wedi creu cysylltiadau â sefydliadau partner newydd.

Mae'r Grŵp Cydlyniant Cymunedol yn edrych ar adroddiadau ar droseddau casineb bob tri mis. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig. Mae ganddynt hefyd ddata ac astudiaethau achos ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, stopio a chwilio, a'r defnydd o rym. Mae'r Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol a'r Swyddog Trosedd Casineb yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro tensiynau yn y gymuned.

Mae'r Swyddog Trosedd Casineb De Cymru wedi cyflwyno sesiynau allgymorth mewn ysgolion a charchardai i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drosedd casineb a sut i adrodd am ddigwyddiadau.

Mae Byrddau CONTEST Bro Morgannwg a Chaerdydd (Gwrthderfysgaeth) wedi uno. Mae'r Bwrdd CONTEST yn sicrhau bod swyddogion allweddol yn deall tensiynau cymunedol posibl a thueddiadau yn ymwneud ag eithafiaeth. Yn ystod haf 2018, cytunodd y Bwrdd i ddatblygu proses 'Channel' ranbarthol. Mae 'Channel' yn broses amlasiantaeth ymyrraeth gynnar a gynlluniwyd i ddiogelu pobl agored i niwed rhag cael eu tynnu i mewn i ymddygiad eithafol treisgar neu derfysgaeth. Mae 'Channel' yn gweithio mewn ffordd debyg i bartneriaethau diogelu presennol sydd wedi'u hanelu at amddiffyn pobl agored i niwed. Bydd hyn yn ei helpu i rannu arbenigedd ar draws y rhanbarth a chefnogi'r broses o gyfnewid adnoddau a gwybodaeth. Yn ei dro, bydd hyn yn meithrin gwell dealltwriaeth o dueddiadau rhanbarthol.

Cefnogodd yr Uned Cydlyniant Cymunedol ac Ymgysylltu Cymunedol Ranbarthol clwb Criced Morgannwg i sicrhau cyllid i gyflwyno gweithdai i bobl ifanc. Derbynasant gyllid drwy gymorth adran Wrtheithafiaeth y Swyddfa Gartref, dan eu rhaglen 'Adeiladu Prydain Cryf Gyda'n Gilydd'. Mae hyn wedi ariannu cyfres o weithdai 'Tu Hwnt i'r Ffiniau', gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o themâu sy'n gysylltiedig â throseddau casineb, hawliau dynol ac eithafiaeth.

Rhoddodd y Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol adborth i Fforwm Cydraddoldeb Hiliol Cymru gyfan mewn perthynas â chronfa troseddau casineb hil y dyfodol Llywodraeth Cymru. Gweithiodd y Cydlynnydd ar y cyd â sefydliadau cymwys i ddatblygu ceisiadau lleol i sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn cael eu cefnogi'n briodol.

Yn 2019-2021, bydd gwaith y Grŵp Cydlyniant Cymunedol i atal troseddau casineb yn y Fro yn cael ei ddatblygu ymhellach gan y Swyddog Cydlyniant sydd newydd ei benodi, sydd wedi'i leoli yn y Tîm Diogelwch Cymunedol yng Ngorsaf Heddlu'r Barri.

### **Atal Bwlio mewn Ysgolion**

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'n hysgolion i leihau bwlio. Rydym yn canolbwyntio ar grwpiau agored i niwed sy'n fwy tebygol o ddioddef bwlio. Rydym wedi cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- darparu 'pecyn cymorth adeiladu gallu' lles i ysgolion i ddelio â bwlio;
- monitro achosion o fwlio mewn ysgolion;
- rhannu'r wybodaeth hon ag Ymgynghorwyr Her;
- monitro achosion o fwlio yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- datblygu model gwrth-fwlio enghreifftiol y mae pob ysgol wedi'i fabwysiadu;
- ymweliadau cefnogi a herio ag ysgolion i edrych ar ddata, gydag ymweliadau adolygu os oes angen;
- awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ar gyfer wythnos atal bwlio;
- hyfforddiant diogelu i bob ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am fwlio a bwlio ar-lein;
- datblygu Pecyn Cymorth Trawsrywedd i roi arweiniad i ysgolion ar y risg o fwlio ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc, gan amlinellu sut y gall ysgolion atal hyn.

Mae'r elfennau hyn yn canolbwyntio'n glir ar blant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel mewn ysgolion.

Caiff data ar nifer yr achosion o fwlio yn ôl nodweddion gwarchoddedig ei gasglu a'i fonitro i nodi a oes unrhyw dueddiadau y mae angen ymdrin â nhw. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dueddiadau o'r data cyfredol wedi'u nodi y mae angen gweithredu arnynt. Mae hyn yn dangos bod yr amrywiaeth o ymyriadau sy'n cael eu defnyddio yn gweithio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod data cenedlaethol a rhai'r DU yn dangos bod rhai grwpiau yn wynebu mwy o risg o fwlio:

- disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- disgyblion anabl;
- disgyblion sy'n lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywedol;

- disgyblion o leiafrifoedd ethnig;
- disgyblion o gefndir crefyddol.

Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio'n agos ag ysgolion er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a chymryd camau i ddelio â bwlio.

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a Stonewall Cymru wedi darparu hyfforddiant sy'n pwysleisio bod gan blant a phobl ifanc yn aml nifer o nodweddion gwarchoddedig a bod hyn yn cynyddu'r perygl o fwlio. Mae hwn yn faes y byddwn yn ceisio ei ddatblygu yn y dyfodol.

Mae'r heriau wedi bod fel a ganlyn:

- sicrhau bod pob ysgol yn cwblhau'r ffurflen bwlio bob tymor;
- datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn yw bwlio;
- ein gallu i fonitro gweithdrefnau gwrth-fwlio mewn ysgolion;
- mae nifer yr achosion o fwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth yn isel.

Mae'r cymorth y mae'r Cyngor wedi'i roi i ysgolion wedi'u helpu i gefnogi plant a phobl ifanc. Mae'r Arolygiaeth Ysgolion, Estyn, wedi cydnabod hyn. O'r ysgolion a arolygwyd ganddi ers 2016, graddiodd Estyn 98% ohonynt fel naill ai'n dda neu'n rhagorol ar gyfer cymorth a chyfarwyddyd lles a gofal.



## **Amcan Cydraddoldeb 7:**

### **Canfod ffyrdd newydd o gyrraedd dioddefwyr o gamdriniaeth a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau camdriniaeth ddomestig yn y gymuned.**

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar i ddatblygu Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023. Mae hwn yn nodi sut y bydd partneriaid yn llunio ac yn cyflwyno ymatebion i bob math o gam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y rhanbarth. Y weledigaeth yw bod pobl sy'n byw, yn gweithio, yn astudio ac yn ymweld â Chaerdydd a Bro Morgannwg, yn cael cyfle i fyw bywydau cadarnhaol, annibynnol heb gael eu heffeithio gan drais a cham-drin.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Domestig Arbenigol - Atal Y Fro a Thîm Cefnogi Pobl y Cyngor. Gyda'n gilydd rydym yn sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig yn gallu cael cymorth, cefnogaeth ac amddiffyniad. Mae hyn yn cynnwys: lloches, tai ail gam a thai gwasgaredig; a mynediad cwnsela i raglenni perthnasol, gan gynnwys cefnogaeth allgymorth.

Rydym hefyd yn atgyfeirio i wasanaethau arbenigol megis BAWSO, Project DYN, Rainbow Bridge a Live Fear Free.

Trefnir hyfforddiant a diwrnodau codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau sy'n cael eu hysbysebu'n eang ar draws Bro Morgannwg. Er enghraifft, cynhelir ymgyrchoedd a digwyddiadau ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn ac fe'u targedir o amgylch digwyddiadau penodol yn y calendr megis ymgyrch y Rhuban Gwyn, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, 16 diwrnod o weithredu, Pride, Wythnos Diogelu. Rydym yn canolbwyntio ar bynciau perthnasol yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol. Bydd y rhain yn rhai wyneb yn wyneb, ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, cyfryngau cymdeithasol, radio, teledu a'r wasg. Bydd gwybodaeth hefyd ar daflenni, llythyron ac e-byst.

Mae Atal y Fro yn hysbysebu eu gwasanaethau trwy'r cyfryngau cymdeithasol, y wasg, a digwyddiadau hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae'n gweithio gyda'r sector statudol a'r trydydd

sector i sicrhau bod eu gwasanaethau yn cael eu hysbysebu i gymaint o bobl â phosibl gan gynnwys y Fro wledig.

Cyflwynir adroddiadau chwarterol a blynyddol i Lywodraeth Cymru ar y Cynllun Cyflawni Rhanbarthol. Rydym yn adrodd ar gynnydd gyda'r Strategaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ar y nodweddion gwarchoddedig. Rydym hefyd yn adrodd i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae'r Cyngor yn mynd ati i gefnogi gwaith Fforwm 50+ y Fro i gynyddu amlygrwydd a gwasanaethau ar draws Bro Morgannwg.

## **Amcan Cydraddoldeb 8:**

### **Lleihau'r bwlch cyflog a gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchoddedig**

Cesglir data yn ôl nodweddion gwarchoddedig a chaiff ei adrodd yn flynyddol yn Adroddiad Gwybodaeth am Gyflogaeth y Cyngor. Mae hyn yn rhan o'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol (Atodiad 5), a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.

Rydym yn coladu, yn adrodd ac yn cyhoeddi ein Polisi Cyflogau'r Cyflogeion Blynyddol. Mae hyn yn darparu fframwaith i wneud yn siŵr bod ein cyflogeion yn cael eu talu'n deg ac yn wrthrychol ac yn sicrhau ei fod yn broses agored a thryloyw.

Mae'r Cyngor yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal fel y gallant fanteisio ar brofiad gwaith a llwybrau prentisiaeth i gefnogi eu datblygiad gyrfaoel parhaus. Mae hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar wella cyfraddau cyflogaeth pobl ifanc sydd wedi'u tangynrychioli yn ein gweithle.

Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc, pobl hŷn, gweithwyr a ddiswyddwyd, rhieni sengl, a phobl anabl. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor yn parhau i feddu ar statws "Hyderus o ran Anabled" ac mae'n gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith leol i gyflawni camau craidd. Er

enghraifft, darperir cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a/neu sy'n ddi-waith yn yr hirdymor.

Rydym wedi darparu cyfle profiad gwaith i berson ifanc drwy gynllun Stonewall ar gyfer pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol.

Mae gan y Cyngor gynllun gweithlu sy'n cynnwys camau gweithredu i sicrhau bod gweithwyr y Cyngor yn adlewyrchu'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys camau i leihau'r bwlch cyflog o ran y rhywiau. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf:

- Ar 31 Mawrth 2016, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 8.88%.
- Ar 31 Mawrth 2016, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 8.81%.
- Ar 31 Mawrth 2016, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 8.01%.
- Ar 31 Mawrth 2016, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 5.48%.
- Ar 31 Rhagfyr 2019, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 4.57%.

Cyflawnwyd hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Cyflwynwyd y Cyflog Byw ym mis Ebrill 2016. Cafodd hyn ei wella drwy'r Cyngor yn penderfynu rhoi'r gorau i ddefnyddio'r pwynt cyflog isaf o fewn ei strwythur. Roedd hyn yn cael effaith fwy manteisiol i fenywod yn y gweithlu.

Bu newid sylweddol o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Prif Swyddogion. Mae yna gydbwysedd hyd yn oed mwy erbyn hyn. Cafodd y rhan fwyaf o benodiadau Prif Swyddogion eu gwneud yn dilyn proses gystadleuol lle'r oedd ymgeiswyr mewnol yn llwyddiannus. Mae hyn yn dyst i ddatblygiad rheolwyr a chynllunio olyniaeth y Cyngor.

Bu newid sylweddol o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Prif Swyddogion. Mae cydbwysedd hyd yn oed mwy rhwng y rhywiau (un benywaidd yn fwy na gwrywaidd) sydd wedi arwain at newid sylweddol yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Mae'r Cyngor wedi mynychu ffeiriau swyddi ar gyfer ysgolion, colegau, prifysgolion a gyrfaoedd lleol i hyrwyddo'r ystod o yrfaoedd a swyddi yn y Cyngor. Mae hyn yn canolbwyntio ar ddileu stereoteipiau gyrfa a swyddi a herio syniadau pobl am y mathau o swyddi sy'n agored iddynt.

Mae'r system arfarnu wedi'i diwygio. Mae hyn yn rhoi cyfle i staff gyflwyno syniadau am ddatblygu eu potensial. Gallant archwilio cyfleoedd datblygu eu hunain a fydd yn cyd-fynd ag anghenion busnes. Ategwyd hyn gan Gaffi Arweinyddiaeth y Cyngor sy'n hyrwyddo datblygiad personol gweithwyr, yn eu helpu i rwydweithio ac i chwalu rhwystrau.

Mae adroddiadau ar y bwlch cyflog ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig wedi'u cwblhau'n llwyddiannus. Caiff y data ei gynnwys yn yr adroddiad diweddaraf ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd data yn cael ei ddarparu ar gyfer 2017/18 a 2018/19 er mwyn darparu cymhariaeth.

Mae denu mwy o bobl ifanc i weithio gyda ni yn flaenoriaeth gan nad yw cyfran y staff ifanc yr ydym yn eu cyflogi yn adlewyrchu cyfran y bobl ifanc yn ein cymuned. Mae defnyddio prentisiaethau yn fesur allweddol i gefnogi'r amcan hwn. Mae'r Cyngor wedi cynnig, ac yn parhau i gynnig, nifer o brentisiaethau sylfaen i bobl ifanc sy'n 16-24 oed. Mae 23 o brentisiaid yn y Cyngor ar hyn o bryd. Rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018, gwnaethom gyflogi prentisiaid yn bennaf ar sail asiantaeth. O fis Mawrth 2018, gwnaethom gyflogi prentisiaid yn uniongyrchol.

Bwriedir parhau i fynychu ffeiriau swyddi'r ysgolion, colegau, prifysgolion a gyrfaoedd lleol er mwyn parhau i hyrwyddo'r amrywiaeth o yrfaoedd a swyddi sydd gennym yn y Cyngor. Bydd ffocws yn parhau ar ddileu'r stereoteipiau a'r rhagdybiaethau gyrfaol a'r swyddi sydd gan lawer o bobl.

Adroddir ar gynnydd ar y gwaith hwn bob blwyddyn yn Adroddiad Gwybodaeth Cyflogaeth y Cyngor sy'n rhan o'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blyneddol a gyhoeddir ar ein gwefan.

## Amcanion cydraddoldeb – yr hyn y byddwn yn ei wneud

Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o gamau gweithredu i'w cymryd dros y pedair blynedd nesaf rhwng 2020 a 2024.

Credwn y bydd llawer o'r amcanion cydraddoldeb hyn o fudd i'r holl grwpiau gwarchoddedig ac y byddant yn torri ar draws nodweddion gwarchoddedig. Wrth i ni weithio tuag atynt, rydym yn gwneud cynnydd o ran cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o'r hyn y mae angen i ni ei wneud i ddiwallu anghenion grwpiau gwarchoddedig.

Fodd bynnag, gan fod ein hadnoddau yn gynyddol brin, yr ydym wedi dewis canolbwyntio ar y meysydd hynny lle y mae ymchwil, data a phrofiad yn dweud wrthym fod yr angen mwyaf.

Mae'r adran hon yn darparu mwy o wybodaeth am bob un o'n hamcanion cydraddoldeb 2020-2024, pam yr ydym wedi'u dewis, yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni a'r gweithgareddau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni.

Mae ein hamcanion cydraddoldeb blaenorol wedi cael mwy o ffocws mewnol. Adlewyrchai hyn yr angen i sefydlu, datblygu, neu wella systemau i gasglu data ar nodweddion gwarchoddedig ein defnyddwyr gwasanaeth ac i ymgysylltu â hwy. Mae hyn wedi ein helpu i ddeall pwy yw ein defnyddwyr gwasanaeth ac i nodi bylchau yn narpariaeth y gwasanaeth. Mae'r arferion hyn wedi'u sefydlu'n well erbyn hyn.

Yn awr, mae angen i'r ffocws newid i edrych ar sut y bydd y wybodaeth a'r codi ymwybyddiaeth hon yn gwella canlyniadau i grwpiau gwarchoddedig. Mae angen i ni ddefnyddio ein gwybodaeth a'n profiad i barhau i wella ein dealltwriaeth o anghenion amrywiol pobl ac unrhyw rwystrau i'n gwasanaethau a allai fodoli.

Rydym wedi dewis cysylltu ein hamcanion cydraddoldeb â'r amcanion llesiant corfforaethol. Mae hyn yn cysoni gwaith y Cyngor yn y meysydd hyn ac yn prif ffrydio ein gwaith ar fynd i'r afael â meysydd lle y mae'r anfantais fwyaf.

Ein Hamcan Llesiant Corfforaethol cyntaf yw **gweithio gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer**.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cysylltu â hyn drwy nodi'r cymunedau mwyaf difreintiedig fel y'u nodir yn 'A yw Cymru'n Decach 2018' a thrwy ymgysylltu'n lleol.

Mae'r amcanion cydraddoldeb canlynol yn cysylltu â'r amcan llesiant hwn.

- **Amcan Cydraddoldeb Strategol Un**

Gwella sut rydym yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â'r nodweddion gwarchoddedig am ein gwaith a'n penderfyniadau

- **Amcan Cydraddoldeb Strategol Dau**

Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, nodi a oes bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn y Cyngor erbyn Mawrth 2021, ac adrodd yn ôl yn flynyddol ar y ddau.

- **Amcan Cydraddoldeb Strategol Tri**

Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y Cyngor ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl a phobl ifanc, er mwyn adlewyrchu'n agosach amrywiaeth y boblogaeth leol erbyn Mawrth 2024.

- **Amcan Cydraddoldeb Strategol Pedwar**

Parhau i weithio ar ddatblygu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol sy'n cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, drwy weithredu ystod o gamau gweithredu erbyn Mawrth 2024.

- **Amcan Cydraddoldeb Strategol Pump**

Rhoi cymorth a datblygiad i aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb.

Ein hail Amcan Llesiant Corfforaethol yw **i gefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy.**

Nod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw cefnogi dysgu a chyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf difreintiedig.

Mae'r amcan cydraddoldeb canlynol yn cysylltu â'r amcan llesiant hwn.

- **Amcan Cydraddoldeb Strategol Chwech**

Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad i blant a phobl ifanc a darparu cymorth i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.

Ein trydydd Amcan Llesiant Corfforaethol yw **i gefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned.**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cefnogi diogelwch a lles pobl gartref ac yn eu cymuned, gan roi sylw arbennig i grwpiau gwarchoddedig y nodwyd eu bod dan anfantais yn 'A yw Cymru'n Decach 2018' a'n gwybodaeth a'n data lleol ein hunain.

Mae'r amcanion cydraddoldeb canlynol yn cysylltu â'r amcan llesiant hwn.

- **Amcan Cydraddoldeb Strategol Saith**

Datblygu a gweithredu prosesau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â throseddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- **Amcan Cydraddoldeb Strategol Wyth**

Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion gwarchoddedig a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.

- **Amcan Cydraddoldeb Strategol Naw**

Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafndiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn.

Ein pedwaredd Amcan Llesiant Corfforaethol yw **parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd.**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ceisio sicrhau bod ystod amrywiol o bobl yn gallu mwynhau ein hamgylchedd lleol, gan gynnwys pobl anabl.

- **Amcan Cydraddoldeb Strategol Deg**

Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hygyrchedd, i grwpiau gwarchoddedig.

Mae'r amcanion cydraddoldeb hyn yn ategu ein gwaith i gyflawni'r pum ffordd o weithio a chyfrannu at ein hamcanion lles fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r pum ffordd o weithio ac maent hefyd yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys y cynllun. Mae pwyslais cryf ar gydweithio gan fod y Cyngor yn cydnabod yr angen i weithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau a gwella lles lleol. Mae'r cynllun yn adlewyrchu pwysigrwydd atal ac mae hyn wedi bod yn thema gref yn llawer o'r ymgysylltu hyd yn hyn. Cynllun pedair blynedd yw hwn ond rydym yn cydnabod bod llawer o'r materion yn rhai tymor hwy hyd yn oed.

Mae'r adran ganlynol yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb yng nghyd-destun ein hamcanion lles corfforaethol.

Ar gyfer pob amcan, rydym yn rhoi sylwadau ar y nodweddion gwarchoddedig y mae'n ymwneud â hwy, y canlyniadau disgwylidig, y camau gweithredu, a sut y byddwn yn gwybod sut rydym yn gwneud.

Yn y wybodaeth am nodweddion gwarchoddedig, rydym wedi defnyddio gwybodaeth o adroddiad ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach 2018'. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'u nodi mewn adrannau neu barthau felly rydym wedi cynnwys mewn cromfachau yr adran yr ydym wedi cymryd y wybodaeth hon ohoni.



Ein Hamcan Llesiant Corfforaethol cyntaf yw **gweithio gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer**.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cysylltu â hyn drwy nodi'r cymunedau mwyaf difreintiedig fel y'u nodir yn 'A yw Cymru'n Decach 2018' a thrwy ymgysylltu'n lleol.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Un**

- Gwella sut rydym yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â'r nodweddion gwarchoddedig am ein gwaith a'n penderfyniadau

### **Nodweddion Gwarchoddedig**

Mae hyn o fudd i'r holl grwpiau gwarchoddedig, ond byddwn yn canolbwyntio ar bobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, menywod a'r rheini sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.

Dyma'r grwpiau a nodwyd fel y rhai mwyaf difreintiedig yn 'A yw Cymru'n Decach 2018'.  
(Gwaith)

### **Canlyniadau disgwylidig**

Mae'r gwelliannau a nodwyd ar waith.

Mae gan randdeiliaid wybodaeth am y gwelliannau a'r cyfle i gyfrannu i gefnogi cynnydd.

### **Camau Gweithredu**

1. Nodi sut mae'r Cyngor yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â grwpiau gwarchoddedig ar hyn o bryd.
2. Darparu cyngor a hyfforddiant i wasanaethau ar ddadansoddi data.
3. Rhoi cynlluniau gweithredu ar waith ar gyfer gwella.
4. Rhoi cynllun cyfathrebu ar waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u diweddarau ar gynnydd.

5. Adolygu sut mae'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb yn gweithredu a'i ryngwyneb gyda hyrwyddwyr perthnasol y Cyngor erbyn Gorffennaf 2020.

**Sut y byddwn yn gwybod sut yr ydym yn gwneud**

1. Mae'r amrywiaeth o sefydliadau rydym yn ymgysylltu â nhw yn gynrychioliadol o anghenion grwpiau gwarchoddedig.
2. Gwybodaeth a data ar sut y defnyddiwyd ymgysylltu i wella canlyniadau ar gyfer grwpiau gwarchoddedig a grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
3. Gwybodaeth a data am nifer y staff rheng flaen sydd wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb, hil ac anabledd.
4. Gwybodaeth a data am ganlyniadau arolygon boddhad staff a defnyddwyr gwasanaethau yn ôl nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys sut y defnyddiwyd adborth i wella canlyniadau ar gyfer grwpiau gwarchoddedig a grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Dau**

Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, nodi a oes bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn y Cyngor erbyn Mawrth 2021, ac adrodd yn ôl yn flynyddol ar y ddau.

## **Nodweddion Gwarchoddedig**

Mae hyn o fudd i fenywod a lleiafrifoedd ethnig, grwpiau y mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi fel rhai sy'n wynebu bylchau cyflog. (Gwaith)

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith bod y bwlch wedi lleihau ychydig. Roedd enillion canolrifol yr awr yn uwch ar gyfer dynion yng Nghymru (£11.36) nac i fmenywod (£9.80) yn 2016/17, sef bwlch cyflog o 13.7% rhwng y rhywiau.

Mae'r Cyngor wedi sicrhau gostyngiad sylweddol yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau sydd, yn gynnar yn 2020, o dan 5%.

Mae'r Cyngor yn dechrau sefydlu systemau fel y gall adrodd ar y bwlch cyflog i leiafrifoedd ethnig a nodi camau gweithredu priodol.

## **Canlyniadau disgwylidig**

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau i wella.

Mae'r Cyngor yn nodi os oes bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig ac yn cymryd camau priodol os yw hyn yn wir.

## **Camau Gweithredu**

1. Parhau i fonitro'r bwlch cyflog yn ôl rhyw bob mis.

2. Sefydlu proses i fonitro'r bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig er mwyn nodi'r bwlch cyflog.
3. Monitro'r bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig bob mis.
4. Camau cynnydd fel rhan o Strategaeth Pobl y Cyngor i fynd i'r afael â phroblemau o ran rhyw a lleiafrifoedd ethnig lle bo'n bosibl.

**Sut y byddwn yn gwybod sut yr ydym yn gwneud**

Gwybodaeth a data am fylchau cyflog, yn enwedig am ryw a hil.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Tri**

Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y Cyngor ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl a phobl ifanc, er mwyn adlewyrchu'n agosach amrywiaeth y boblogaeth leol erbyn Mawrth 2024.

### **Nodweddion Gwarchoddedig**

Mae hyn o fudd i'r holl grwpiau gwarchoddedig ond bydd y Cyngor yn edrych ar sut y gall ddileu rhwystrau i gyflogaeth, prentisiaethau a phrofiad gwaith i bobl anabl a phobl ifanc.

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod pobl anabl yn syrthio'n ôl mewn cyflogaeth. Nid ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn prentisiaethau, ac mae eu cyfradd cyflogaeth yn llai na hanner nifer y bobl nad ydynt yn anabl. (Gwaith)

Cadarnhaodd ymgysylltu lleol y byddai pobl anabl yn hoffi i rwystrau gael eu dileu i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth hyblyg.

Mae'r Cyngor wedi nodi bod tangynrychiolaeth o bobl ifanc yn ei weithlu.

### **Canlyniadau disgwylidig**

Cynnydd mewn cyfraddau cyflogaeth i bobl anabl a phobl ifanc ar draws swyddi, prentisiaethau a phrofiad gwaith.

Cysylltiadau cryfach â'r gymuned anabl fel eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael mewn modd amserol.

Cysylltiadau parhaus gyda grwpiau pobl ifanc fel Cabinet Ieuencid y Fro.

### **Camau Gweithredu**

1. Gweithio gyda grwpiau lleol i nodi rhwystrau i ymgymryd â chyfleoedd gwaith erbyn Mawrth 2021.
2. Cymryd camau i fynd i'r afael â rhwystrau a chreu mwy o gyfle ar gyfer cyflogaeth erbyn Hydref 2021.
3. Ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau anabl a phobl ifanc lleol i drafod cynnydd.

### **Sut y byddwn yn gwybod sut yr ydym yn gwneud**

Gwybodaeth a data am amrywiaeth ein staff, gan gynnwys dilyniant mewnol, sy'n esbonio sut y cyflawnwyd gwelliannau.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Pedwar**

Parhau i weithio ar ddatblygu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol sy'n cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, drwy weithredu ystod o gamau gweithredu erbyn Mawrth 2024.

### **Nodweddion Gwarchoddedig**

Bydd hyn o fudd i'r holl grwpiau gwarchoddedig.

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod nifer y menywod sy'n cael cyflogaeth mewn rolau â chyflog uwch wedi cynyddu a bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos lefelau uchel o fwlio, aflonyddwch a phrofiadau negyddol yn y gweithle, gan gynnwys aflonyddu rhywiol a gwahaniaethu o ganlyniad i feichiogrwydd neu famolaeth. (Gwaith)

Mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn fwy tebygol o brofi gwahaniaethu yn y gweithle ('LGBT in Britain' gan Stonewall – adroddiad gwaith (2018)). Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn aelod o Raglen Amrywiaeth yn y Gweithle Stonewall.

Dywed 'A yw Cymru'n Decach 2018' fod cyfradd cyflogaeth pobl anabl yng Nghymru yn llai na hanner y gyfradd ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl. (Gwaith)

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod prentisiaethau yn dal i wahanu rhyw yn gryf. Nid yw lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn prentisiaethau. (Gwaith)

### **Canlyniadau disgwylidig**

Gwell sgôr ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall.



Mae'r adroddiad 'Beichiogrwydd a gwahaniaethu ar sail mamolaeth yn y gweithle: Argymhellion ar gyfer newid' yn cael ei ystyried a gweithredu arno fel y bo'n briodol.

Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff o bolisi aflonyddu rhywiol a chwblhau hyfforddiant.

Gwella ymgysylltiad staff drwy grwpiau ymgysylltu ac arloesi a'r Caffi Dysgu.

Prosesau recriwtio ar waith sy'n herio stereoteipiau rhyw.

### **Camau Gweithredu**

1. Gwella cynhwysiant pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn y gweithle a mesur cynnydd drwy Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall bob blwyddyn.
2. Cynnydd yn y chwe maes gweithredu i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth fel y nodir yn adroddiad 'Beichiogrwydd a gwahaniaethu ar sail mamolaeth yn y gweithle: Argymhellion ar gyfer newid' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol erbyn Mawrth 2024.
3. Hyrwyddo polisi aflonyddu rhywiol a chyfleoedd hyfforddiant e-ddysgu'r Cyngor erbyn Mawrth 2021, monitro ac adrodd ar gyfraddau cwblhau hyfforddiant.
4. Cynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Ymgysylltu ac Arloesi Corfforaethol gyda staff i annog lles ac arferion gweithio da, arloesedd, a gwell cyfathrebu.
5. Cynnal cyfarfodydd rheolaidd o Grwpiau Ymgysylltu ac Arloesi Lleol i gynyddu gallu staff i ddylanwadu ar gyfeiriad y Cyngor.
6. Cynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Caffi Dysgu - rhwydwaith y Cyngor ar gyfer rhannu syniadau, hyrwyddo arfer gorau, arfogi staff â'r sgiliau a'r wybodaeth i ymdopi â heriau yn y gweithle, a chefnogi dilyniant gyrfa.
7. Hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mewn ffordd sy'n herio stereoteipiau rhyw.

**Sut y byddwn yn gwybod sut yr ydym yn gwneud**

Arolygon Boddhad Staff.

Cynlluniau gweithredu gan grwpiau Ymgysylltu ac Arloesi'r staff.

Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall.

Data am y gweithlu.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Pump**

Rhoi cymorth a datblygiad i aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb.

### **Nodweddion Gwarchoddedig**

Mae hyn o fudd i'r holl grwpiau gwarchoddedig.

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod menywod yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol a phrin yw'r data ar grwpiau eraill fel pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig. (Cyfranogiad)

### **Canlyniadau disgwylidig**

Mae gan gynghorwyr y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cydraddoldeb er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.

Cydraddoldeb a hyrwyddwyr LHDT yn cefnogi materion cydraddoldeb blaenoriaethol megis gwelliant o ran cynwysoldeb yn y gweithle.

### **Camau Gweithredu**

1. Rhoi hyfforddiant cydraddoldeb i bob Cynghorydd erbyn Gorffennaf 2022.
2. Ymgysylltu â'r aelodau etholedig sy'n Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac LHDT i nodi sut a ble y gallant gefnogi materion cydraddoldeb yn hyderus.

### **Sut y byddwn yn gwybod sut yr ydym yn gwneud**

Nifer yr aelodau etholedig sydd wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb.

Amrywiaeth o faterion cydraddoldeb wedi'u cefnogi gan aelodau etholedig sy'n Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac LHDT

Ein hail Amcan Llesiant Corfforaethol yw i **gefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy.**

Nod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw cefnogi dysgu a chyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf difreintiedig.

Rydym am i breswylwyr gael cyfle teg i ddod yn hyddysg ac yn fedrus, ac i gyflawni eu potensial wrth iddynt ddatblygu a dysgu. Rydym yn ymrwymedig i annog dyheadau pobl a sicrhau bod unigolion a chymunedau'n gallu ffynnu a chyflawni eu gorau.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Chwech**

Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad i blant a phobl ifanc a darparu cymorth i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.

### **Nodweddion Gwarchodedig**

Mae hyn o fudd i'r holl grwpiau gwarchodedig.

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod bylchau o ran cyrhaeddiad yn parhau ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. (Addysg)

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod menywod a merched ifanc, plant lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwy tebygol o fod mewn perygl o ddiodef bwlio ar sail hunaniaeth. (Addysg)

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod gan blant tlotach, plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, plant gwyn a phlant o ethnigrwydd cymysg gyfraddau gwahardd sy'n uwch na'r cyfartaledd. (Addysg)

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod dewisiadau pwnc yn dal i fod yn hynod ar sail rhywedd, gyda merched yn llawer llai tebygol o barhau i astudio gwyddoniaeth a mathemateg ar ôl ysgol. (Addysg)

### **Canlyniadau disgwylidig**

Lleihau'r bylchau mewn cyrhaeddiad.

Rhaglenni ar waith i fynd i'r afael â bwlio ar sail hunaniaeth.

Lleihau cyfraddau gwahardd ar gyfer plant sydd â nodweddion gwarchodedig penodol, gan gynnwys plant anabl a phlant o ethnigrwydd cymysg.

### **Camau Gweithredu**

1. Cyflawni a gwerthuso rhaglenni ac ymyriadau gyda'r nod o fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad er mwyn sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar anfantais economaidd-gymdeithasol, anabledd, rhyw, hil, nodweddion gwarchoddedig eraill a gofalwyr ifanc.
2. Ceisio lleihau cyfraddau gwahardd ar gyfer plant â nodweddion gwarchoddedig penodol, gan gynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd ac anabledd.
3. Dadansoddi data bwlio a gesglir gan ysgolion, gan gynnwys bwlio hiliol, i nodi tueddiadau ac adolygu strategaethau gwrth-fwlio fel bod datrysiadau effeithiol ar waith.
4. Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno rhaglenni sy'n cefnogi pobl i baratoi ar gyfer cyflogaeth.

### **Sut y byddwn yn gwybod sut yr ydym yn gwneud**

1. Gwybodaeth a data ar sut y mae rhaglenni ac ymyriadau wedi effeithio ar fylchau mewn cyrhaeddiad ar blant a phobl ifanc â nodweddion gwarchoddedig ac sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.
2. Gwybodaeth a data ar nifer y plant sy'n cael eu heithrio fesul nodweddion gwarchoddedig ac anfantais economaidd-gymdeithasol.
3. Dadansoddi data bwlio mewn ysgolion gan ddangos tueddiadau ac adolygu strategaethau gwrth-fwlio i fynd i'r afael â chanfyddiadau.
4. Gwybodaeth a data ar ganlyniadau rhaglenni sy'n cefnogi pobl i baratoi ar gyfer cyflogaeth.

Ein trydedd Amcan Llesiant Corfforaethol yw **i gefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned.**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cefnogi diogelwch a lles pobl gartref ac yn eu cymuned, gan roi sylw arbennig i grwpiau gwarchoddedig y nodwyd eu bod dan anfantis yn 'A yw Cymru'n Decach 2018' a'n gwybodaeth a'n data lleol ein hunain.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i wneud yn siŵr bod pobl yn ddiogel gartref ac yn y gymuned a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau sy'n cefnogi eu lles cyffredinol. Rydym yn darparu'r cyngor, gofal a chymorth angenrheidiol yn ôl yr angen.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Saith**

Datblygu a gweithredu prosesau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â throseddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### **Nodweddion Gwarchoddedig**

Mae hyn o fudd i'r holl grwpiau gwarchoddedig.

Dywed 'A yw Cymru'n Decach 2018' fod nifer y troseddau casineb a gofnodwyd wedi cynyddu ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig yng Nghymru, gyda thystiolaeth i awgrymu cynnydd sydyn mewn troseddau casineb o ran hil a chrefydd yn dilyn digwyddiadau sbarduno. (Cyfiawnder a diogelwch personol)

Dywed 'A yw Cymru'n Decach 2018' fod cynnydd sydyn wedi bod yn nifer y troseddau rhywiol a thrais domestig a riportwyd ac a gofnodwyd gan yr heddlu ers 2015. (Cyfiawnder a diogelwch personol)

### **Canlyniadau disgwylidig**

Prosesau ar waith i fynd i'r afael â throseddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Gwell ymwybyddiaeth ymhlith pobl yn y gymuned o'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

### **Camau Gweithredu**

1. Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno mesurau ataliol a rhoi cyngor a chymorth i bobl sy'n dioddef cam-driniaeth, aflonyddu, troseddau casineb neu fwlio, gan gynnwys menywod o leiafrifoedd ethnig, menywod anabl, menywod ag anghenion cymhleth, dynion, pobl ifanc a phlant.



### **Sut y byddwn yn gwybod sut yr ydym yn gwneud**

Gwybodaeth a data ar brosesau ataliol, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer grwpiau gwarchoddedig.

Gwybodaeth a data ar gyngor a chymorth perthnasol a ddarperir i bobl sy'n profi cam-driniaeth, aflonyddu, troseddau casineb neu fwlio, gan ganolbwyntio ar grwpiau y nodwyd eu bod yn fwyaf anghenus.

Gwybodaeth a data ar y nifer o bobl sy'n cael cyngor a chymorth.

Gwybodaeth a data ar gynnydd gyda Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018 - 2023

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Wyth**

Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion gwarchoddedig a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.

### **Nodweddion Gwarchoddedig**

Mae hyn o fudd i'r holl grwpiau gwarchoddedig.

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod pobl anabl yn wynebu prinder cartrefi hygrych a hyblyg ac oedi hir wrth wneud cartrefi presennol yn hygrych. (Safonau byw)

Mae 'A yw Cymru'n Decach 2018' yn nodi bod cysgu ar y stryd yng Nghymru wedi cynyddu a bod lefelau uchel o ddigartrefedd. (Safonau byw)

Cyhoeddwyd adroddiad a gomisiynwyd gan ymgyrch Diwedd ar Ddigartrefedd Ieuentid Cymru ym mis Awst 2019 - 'Allan ar y strydoedd: Digartrefedd ymhlith Pobl LHDTC ac Ifanc yng Nghymru'. Mae'r adroddiad hwn yn nodi bod digartrefedd pobl ifanc yn effeithio'n anghymesur ar gymuned LHDT+ ac maent yn fwy tebygol o gael eu gwneud yn ddigartref o ganlyniad i chwalfa deuluol na'u cyfoedion nad ydynt yn LHDT.

### **Canlyniadau disgwylidig**

Mwy o eiddo tai fforddiadwy sydd wedi'u haddasu a'u darparu, sy'n addas i bobl anabl a/neu oedrannus.

Cartrefi presennol a wnaed yn hygrych mewn amser rhesymol pan oedd angen gwneud addasiadau.

Gwelliant yng nghanran yr achosion digartref sydd wedi'u hatal.

### **Camau Gweithredu**

1. Ystyried tystiolaeth ac adborth ar y rhwystrau i lety a chymryd camau fel y bo'n briodol.
2. Datblygu a gweithredu Strategaeth Tai ar gyfer Pobl Hŷn er mwyn diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio yn y Fro.
3. Rhoi cynllun gweithredu ar waith i sicrhau bod ein gwasanaethau yn fwy hygyrch i gymunedau'r LHDTC ifanc.
4. Darparu hyfforddiant arbenigol i'n staff i'w galluogi i ddarparu gwasanaeth priodol sy'n diwallu anghenion cymunedau'r LHDTC ifanc.

### **Sut y byddwn yn gwybod sut yr ydym yn gwneud**

Nifer ychwanegol o eiddo tai fforddiadwy/hygyrch wedi'u haddasu a ddarperir bob blwyddyn.

Gwybodaeth a data ar raglenni ataliol, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer grwpiau gwarchodedig.

Gwybodaeth a data ar y nifer o bobl sy'n cael cyngor a chymorth.

Gwybodaeth a data am anghenion tai yn ôl nodweddion gwarchodedig.

Gwybodaeth a data ar ddigartrefedd ym Mro Morgannwg.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Naw**

Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafndiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn.

### **Nodweddion Gwarchodedig**

Mae hyn o fudd i bob grŵp gwarchodedig ac, yn arbennig, i bobl hŷn a phobl anabl.

Mae adroddiad 'A yw Cymru'n Decach 2018' fod trafndiaeth a seilwaith digidol gwael mewn ardaloedd gwledig yn effeithio ar allu pobl i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd, yn enwedig aelwydydd heb geir, pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, a phobl anabl. (Cyfranogiad)

### **Canlyniadau disgwylidig**

Gwell hygyrchedd trafndiaeth leol.

### **Camau Gweithredu**

1. Ymgysylltu â phobl i nodi materion yn ymwneud â mynediad i drafndiaeth.
2. Datblygu cynllun i fynd i'r afael â materion mynediad trafndiaeth fel y bo'n briodol.
3. Darparu hyfforddiant i staff y Cyngor ar sut i helpu i ddiwallu anghenion teithwyr anabl.

### **Sut y byddwn yn gwybod sut yr ydym yn gwneud**

Gwybodaeth a data ar raglenni ataliol, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer grwpiau gwarchodedig.

Gwybodaeth a data ar y nifer o bobl sy'n cael cyngor a chymorth.

Gwybodaeth a data am y mesurau a gymerwyd i wella hygyrchedd trafndiaeth.

Gwybodaeth a data ar foddhad defnyddwyr gwasanaethau.

Gwybodaeth a data ar sut y mae staff y Cyngor wedi cael eu hyfforddi i feddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau er mwyn helpu i ddiwallu anghenion teithwyr anabl.

Ein pedwaredd Amcan Llesiant Corfforaethol yw **parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd.**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ceisio sicrhau bod ystod amrywiol o bobl yn gallu mwynhau ein hamgylchedd lleol, gan gynnwys pobl anabl.

Rydym yn deall sut mae ein hamgylchedd yn cyfrannu at les unigol a chymunedol. Rydym wedi ymrwymo i barchu a gwella ein hamgylchedd er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad i'n hardal leol, yn gwybod amdani, ac yn gallu ei mwynhau.

## **Amcan Cydraddoldeb Strategol Deg**

Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hygyrchedd, i grwpiau gwarchodedig.

## **Nodweddion Gwarchodedig**

Bydd hyn o fudd i bob grŵp gwarchodedig, yn enwedig pobl anabl y mae mwy o rwystrau iddynt.

## **Canlyniadau disgwylidig**

Bydd preswylwyr ac ymwelwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth am yr amgylchedd naturiol ac adeiledig a threftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys pa mor hygyrch yw'r rhain a pha gyfleusterau sydd ar gael er mwyn iddynt allu cynllunio eu hymweliadau.

## **Camau Gweithredu**

1. Ystyried anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig wrth weithio gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill i ddarparu a chynnal cyfleusterau lleol.
2. Hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol fel eu bod, lle y bo'n bosibl, yn hygyrch ac yn hysbys i bob grŵp gwarchodedig.

## **Sut y byddwn yn gwybod sut yr ydym yn gwneud**

Gwybodaeth a data ar strategaethau hybu.

Gwybodaeth a data am grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill yr ydym wedi ymgysylltu â hwy er mwyn hyrwyddo'r amgylchedd a threftadaeth.

Gwybodaeth a data ar doiledau a lleoedd newid.

## Monitro Cynnydd a Chyhoeddi Canlyniadau

Bydd y Cyngor yn parhau i wirio cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac yn adrodd ar hyn bob blwyddyn i dîm rheoli corfforaethol y Cyngor, y Fforwm Cydraddoldeb Ymgynghorol, a'r Cabinet yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol. Caiff hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae'n cynnwys asesiad o effeithiolrwydd y camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb.

Bydd gwybodaeth arall am gydraddoldeb a chyflogaeth yn cael ei hategu bob blwyddyn a gyhoeddir yn flynyddol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori ar gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fel rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddwn yn adolygu ein hamcanion cydraddoldeb strategol a'r camau gweithredu pan fydd yn dod yn fwy eglur beth fydd y ddyletswydd yn gofyn i'r Cyngor ei wneud. Disgwylir i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ym mis Ebrill 2020. Yn y cyfamser, rydym wedi cynnwys camau gweithredu a fydd yn ein helpu i feddwl am effaith ein gwaith ar bobl sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.



## I gael rhagor o wybodaeth

### Ewch i'n gwefan

[www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)

### Newyddion a Diweddariadau - yn syth i'ch mewnlwch

Gallwch danysgrifio i Cyswllt UnFro a chael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau ac ati, gan gynnwys negeseuon atgoffa gwastraff ac ailgylchu wythnosol. Cofrestrwch drwy wefan Cyngor Bro Morgannwg:

### Cyfryngau Cymdeithasol

Cael y newyddion, digwyddiadau a gwybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Bro Morgannwg.

Dilynwch @VOGCouncil ar Twitter neu hoffwch Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook.

Os oes gennych ymholiad am wasanaethau'r Cyngor, cysylltwch â ni.

- Ebost [c1v@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:c1v@valeofglamorgan.gov.uk);
- neu ffoniwch 01446 700111